

Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol



2022 - 2027

Cynnwys

Rhagair

1. Cyflwyniad
2. Cyflawniadau Hyd Yma
3. Cynllunio Rheoli Asedau yn Sir y Fflint - Y Ffeithiau Allweddol
4. Strategaeth Rheoli Asedau - Y Darlun Ehangach
5. Y Cyd-destun Strategol Rhanbarthol
6. Y Cyd-destun Strategol Lleol
7. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
8. Cynllunio Rheoli Asedau - Ble Mae Arnom Eisiau Bod
9. Yr Heriau sy'n ein Hwnebu wrth Gyflawni

Rhagair

Mae asedau'r Cyngor yn hanfodol i gyflawni ein blaenoriaethau a'n gwasanaethau'n effeithiol. Mae darparu'r ased cywir yn y lle cywir ar yr amser cywir yn egwyddor craidd hanfodol i gynllunio rheoli asedau'n effeithiol.

Mae'r cyfyngiadau ariannol digynsail a pharhaus y mae pob Awdurdod Lleol a phartneriaid sector cyhoeddus eraill yn eu hwynebu yn golygu ein bod yn meddwl am arloesedd a defnydd effeithlon o adnoddau fel blaenoriaeth i sicrhau darpariaeth gwasanaethau effeithiol a gwydn.

Drwy ein cynlluniau blaenorol, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gydweithio a gweithio mewn partneriaeth a rhesymoli'r ystâd ac rydym wedi parhau i warchod gwasanaethau rheng flaen wrth gynnal darpariaeth gwasanaethau i'n cwsmeriaid drwy ddefnyddio llai o adeiladau, yn fwy effeithlon.

Mae'r ddogfen hon sydd wedi ei moderneiddio, yn nodi cynllun integredig ar gyfer rheoli asedau'r Cyngor yn y dyfodol. Fel gyda fersiynau blaenorol, mae'n rhyngwynebu â phroses cynllunio busnes y Cyngor, yn hwyluso rheoli ein hasedau a'n hadnoddau cyfalaf yn effeithiol ac yn cyfrannu at y Strategaeth Gyfalaf i sicrhau bod darparu adnoddau a buddsoddiadau i'r dyfodol yn cael eu blaenoriaethu'n briodol ac yn effeithiol.

Mae'r cynllun divygyiedig hefyd yn cysylltu â Pholisi Llywodraeth Cymru i gael Sector Cyhoeddus Di-garbon erbyn 2030 a chyda Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, cafodd strategaeth Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor ei mabwysiadu gan y Cyngor ym mis Chwefror 2022. Fel Cyngor, rydym eisoes wedi buddsoddi mewn mesurau lleihau ynni a chynlluniau ynni adnewyddadwy ers nifer o flynyddoedd, a thrwy gydweithio drwy'r nodau strategol byddwn yn gwneud cyfraniad positif at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chefnogi nod Llywodraeth Cymru i fod yn genedl ddi-garbon erbyn 2050.

Byddwn yn parhau i geisio a defnyddio datblygiadau technolegol pan fyddant yn dod ar gael a byddwn yn parhau i weithio'n hyblyg i ategu at y tirlun gwasanaeth cwsmeriaid sy'n newid yn barhaus.

Mae'r tirlun hwn sy'n esblygu yn cynnig cyfleoedd a heriau yn ein hystadau eiddo a thir ac mae gofyn i ni adolygu'n barhaus y sail ar gyfer cadw asedau yn y lleoliad penodol, chwilio am gyfleoedd newydd i greu partneriaeth â sefydliadau sector cyhoeddus eraill a chynyddu cyflymder, maint, uchelgais a'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau rŵan ac yn y dyfodol.

Y Cyngorydd Billy Mullins,
Aelod Cabinet

1. Cyflwyniad

Prif Nodau ac Egwyddorion

Mae Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor yn elfen hanfodol o ddarparu ein blaenoriaethau corfforaethol a strategaethau'n effeithiol. Bydd darparu'r ased cywir yn y lle cywir ar yr amser cywir yn sicrhau darpariaeth effeithiol ac effeithlon o ystod gynhwysfawr o wasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel.

Mae'r cyfyngiadau ariannol digynsail y mae pob Awdurdod Lleol a phartneriaid sector cyhoeddus eraill yn parhau i'w wynebu yn golygu bod rhaid i ni fod yn fwy effeithlon nag erioed wrth ddefnyddio ein hadnoddau prin. Mae'n golygu datblygu diwylliant o arloesedd a chydweithredu. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol eisoes ac wedi dangos bod yn bosibl lleihau costau rhedeg ein hasedau a darparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid a byddwn yn parhau i ddatblygu'r dull hwn. Ein nod yn y pen draw yw defnyddio llai o adeiladau ond eu defnyddio'n fwy effeithlon ac mewn partneriaeth pan fo'n bosibl. Mae'r ddogfen hon yn nodi cynllun integredig ar gyfer rheoli asedau'r Cyngor a'i raglen gyfalaf yn y dyfodol. Mae'n hwyluso rhyngwyneb di-dor rhwng cynllunio busnes yn y Cyngor a rheoli ein hasedau a'n hadnoddau cyfalaf. Bydd hyn yn sicrhau bod darparu adnoddau a buddsoddiad yn y dyfodol yn cael ei flaenoriaethu a'i dargedu i'r meysydd ble mae eu hangen fwyaf neu ble bydd ein hasedau'n dod â'r budd mwyaf i'n cymunedau a dinasyddion. Mae'n ddogfen allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer rheoli ein hasedau'n effeithlon a fforddiadwy.

Mae'r ddogfen hefyd yn sicrhau'r cysylltiadau priodol ag uchelgais Llywodraeth Cymru i gael Sector Cyhoeddus Di-garbon erbyn 2030, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru a Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor.

Prif Nodau

- Darparu cyd-destun clir i werthuso cynigion ar gyfer gwariant cyfalaf i sicrhau bod yr holl wariant cyfalaf yn cael ei dargedu i ddarparu blaenoriaethau'r Cyngor fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor.
- Nodi sut mae'r Cyngor yn dynodi ac yn blaenoriaethu gofynion a chynigion cyfalaf sy'n codi o strategaethau amrywiol yn cynnwys Cynllun y Cyngor, Cynlluniau Busnes Portffolio a strategaethau corfforaethol eraill a sut y byddant yn cael eu rheoli yn yr adnoddau cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael.
- Cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gael Sector Cyhoeddus Di-garbon erbyn 2030 a rheoli asedau i addasu i'r hinsawdd sy'n newid yn ogystal â bodloni ein dyletswyddau i wella bioamrywiaeth a gwynwch ecosystemau.
- Herio ein hystâd bresennol yn feirniadol, parhau â'r rhaglen o resymoli asedau, gan sicrhau bod asedau sy'n cael eu cadw yn effeithiol, effeithlon a chynaliadwy i ddarparu gwasanaethau.
- Gwneud y mwyaf o dderbyniadau cyfalaf, wrth gydbwysu'r angen i gadw tir ar gyfer ein dibenion dal a storio carbon ein hunain.
- Nodi ac ystyried y dewisiadau sydd ar gael i ariannu gwariant cyfalaf sy'n lleihau'r goblygiadau refeniw parhaus sy'n deillio o wariant cyfalaf hanesyddol ac unrhyw fuddsoddiadau newydd.
- Defnyddio partneriaethau cyhoeddus a phreifat yn fwy effeithiol i gefnogi ein strategaeth gyffredinol.
- Adeiladu ar drefniadau ar gyfer rheoli prosiectau cyfalaf gan gynnwys asesu canlyniadau a chyflawni gwerth am arian.

1. Cyflwyniad

Egwyddorion

- Yr egwyddor sylfaenol ar gyfer rheoli ein hasedau yw sicrhau bod yr ased cywir yn y lle cywir i gefnogi blaenoriaethau'r Cyngor a galluogi darparu gwasanaethau effeithlon. Wrth wneud hynny, byddwn yn dynodi asedau dros ben ac yn ceisio eu gwaredu, ynghyd â'r rhai na fyddent yn dod ag unrhyw fudd economaidd i'r Cyngor wrth eu cadw.
- Drwy ddeall ein gofynion ar gyfer y dyfodol a'n hasedau cyfredol, gallwn lunio strategaeth ar gyfer darparu. Bydd hyn yn bwydo i'n rhaglen gyfalaf yn y tymor canolig, sydd wedi ei rhannu'n dair rhan; rhaglen graidd lai o gynlluniau sy'n rheoleiddiol / statudol eu natur, rhaglen o asedau i'w cadw i wella bywyd asedau presennol a rhaglen fuddsoddi fwy mewn cynlluniau sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau statudol y Cyngor.
- Datgarboneiddio asedau, drwy ddylunio ac adeiladu adeiladau newydd isel mewn carbon a buddsoddi mewn strategaeth isadeiledd yn gyntaf ar gyfer adeiladau presennol i leihau'r defnydd o ynni.
- Gosod rhaglen gyfalaf sydd wedi ei rhannu'n dair rhan; rhaglen graidd lai o gynlluniau sy'n rheoleiddiol / statudol eu natur, rhaglen o asedau i'w cadw i wella bywyd asedau presennol a rhaglen fuddsoddi fwy mewn cynlluniau sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau statudol y Cyngor.
- Bydd cynlluniau sy'n cael eu cynnwys yn ein rhaglen fuddsoddi yn amodol ar gwblhau achos busnes i gynnwys gwerthusiad trylwyr o'r dewisiadau, dadansoddi sensitifrwydd ac asesiad lleihau carbon, a bydd y cynlluniau sy'n creu effeithlonrwydd ar gyfer y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael eu ffafrio.
- Bydd dadansoddiad o oes gyfan a Gwerth Presennol Net yn cael eu defnyddio ar gyfer cynlluniau mawr yn y rhaglen fuddsoddi yn gysylltiedig â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.
- Gan fod adnoddau Cyfalaf a Refeniw dan bwysau, byddwn yn chwilio am ddatrysiadau arloesol a chreadigol i gaffael asedau cyfalaf.
- Bydd asedau dros ben yn cael eu gwaredu pan fo'n briodol er mwyn creu'r incwm cyfalaf mwyaf posibl i'r Cyngor.

2. Cyflawniadau Hyd Yma

Rydym wedi cyflawni llawer o'r amcanion a nodwyd yn y cynllun rheoli asedau blaenorol yn cynnwys:

- Rydym wedi symud ein rhaglen rhesymoli swyddfeydd yn ei blaen ac wedi lleihau'r manau a ddefnyddir yn Neuadd y Sir 50% ac wedi symud staff i'n swyddfa sydd wedi ei hailwampio yn Ewlo. Wrth wneud hyn, rydym wedi creu arbedion effeithlonrwydd mewn costau adeiladau, cyfleustodau, cynnal a chadw yn ogystal â lleihau gwerth trethiannol.
- Rydym wedi dymchwel camau 3 a 4 o Neuadd y Sir a'r bwriad yw symud ymlaen i ailddatblygu'r campws pan fydd amodau'r farchnad yn caniatáu.
- Adfywio Canol Tref y Fflint drwy ddefnyddio ein tir ac eiddo i hwyluso datblygiad cynllun Gofal Ychwanegol a Chanolfan Feddygol newydd.
- Mae'r Cyngor wedi cynyddu darpariaeth tai fforddiadwy yn sylweddol. Mae ein rhaglen fuddsoddi mewn Tai wedi darparu 149 o gartrefi newydd drwy'r rhaglen SHARP, 173 o dai fforddiadwy drwy gyfuniad o gartrefi SHARP a NEW Homes.
- Rydym wedi symud ein rhaglen Drosgrlwyddo Asedau Cymunedol yn ei blaen. Ers dechrau'r rhaglen bum mlynedd yn ôl, rydym wedi trosglwyddo 17 ased, sydd wedi arwain at arbedion refeniw i'r Cyngor.
- Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i oedolion ag Anableddau Dysgu. I gefnogi'r ymrwymiad hwn, mae'r Cyngor wedi darparu hwb cymunedol anableddau dysgu gwerth £4 miliwn (Hwb Cyfle). Mae'r cyfleuster blaenllaw hwn yn darparu amgylchedd o'r ansawdd gorau ar gyfer cymorth gofal dydd a gweithgareddau. Mae'r Hwb yn arbenigo mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion diamddiffyn a'i nod yw darparu gwell iechyd a lles i bobl a gefnogir, gan eu helpu i gyflawni canlyniadau drwy ddatblygu sgiliau a'u cefnogi i fyw'n fwy annibynnol.
- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i leihau allyriadau CO2 o'i ddefnydd o ynni yn ei holl adeiladau. Mae cynlluniau lleihau ynni yn yr asedau hyn dros y pum mlynedd diwethaf wedi cynnwys: gosod paneli solar ffotofoltäig ar ddeg o'n hadeiladau yn cynnwys wyth ysgol, ailwampio goleuadau LED mewn 24 o'n hadeiladau, diweddarau systemau Aerdymheru a gosod gorchuddion pwll mewn dau bafiliwn. Rydym hefyd wedi defnyddio tir i ddatblygu pedair fferm Solar ar draws y sir gyda'r potensial i greu 4mWh yn seiliedig ar greu 85%. Mae'r mesurau hyn wedi arwain at ostyngiad o tua 1.3miliwn kWh with 'y flwyddyn yn y defnydd o ynni, gan arbed tua £377,425 a 311,376 KgCO2e i bob kWh.
- Estyniad i Gartref Gofal Preswyl Marleyfield, Bwcle. Datblygwyd y prosiect buddsoddiad cyfalaf hwn drwy drefniant cyllideb y Gronfa Gofal Integredig â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac mae wedi darparu gwasanaethau ychwanegol, gwelyau (cynnydd o 32 i 64) a chymorth amlddisgyblaeth mewn lleoliad cymunedol. Mae'r cyfleuster yn darparu gwelyau preswyl parhaol yn ogystal â gwelyau sy'n atal derbyniadau ysbyty, hwyluso rhyddhau o'r ysbyty a chaniatáu asesiadau priodol i leihau pecynnau gofal i gefnogi pobl yn y tymor hir.
- Rhaglen Gofal Plant - Roedd grantiau cyfalaf ar gael gan Lywodraeth Cymru i gynghorau at ddibenion darpariaeth gofal plant ar hyd a lled Cymru. Amcanion y rhaglen yw darparu 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar wedi'i ariannu gan y llywodraeth i holl blant 3 a 4 oed rhieni cymwys sy'n gweithio, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Mae'r rhaglen yn cynnwys pecynnau cyllid cyfalaf gwahanol i wneud y mwyaf o'r buddsoddiad mewn nifer o ysgolion ac fe'i ffurfir o'r ffrydiau ariannu canlynol; Grant Gofal Plant LIC, Grant Cyfrwng Cymraeg LIC, Ysgolion yr 21ain Ganrif, Dechrau'n Deg a chyllid cyfalaf Cyngor Sir y Fflint ei hun. Mae 12 prosiect yn cael eu datblygu drwy'r rhaglen, a bydd pob un ohonynt yn cael eu cwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.
- Mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau cyllid grant ar gyfer prosiectau refeniw a chyfalaf. Mae ganddo raglen uchelgeisiol gwerth £85m ar gyfer y rhaglen cymunedau cynaliadwy (Band B). Mae wedi diogelu cyllid drwy'r Grant Ysgolion Bach a Gwledig, Grant Maint Dosbarthiadau Babanod, grantiau Cyfrwng Cymraeg a Gofal Plant. Ynghyd â chyllid y Cyngor, mae cyfraniadau'n ffurfio craidd y strategaeth buddsoddiad cyfalaf i ysgolion.
- Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor ôl-groniad Atgyweirio a Chynnal a Chadw o tua £12m (1 Ebrill 2022) yn y portffolio Ysgolion, mae hyn yn welliant sylweddol ar yr ôl-groniad o £35m yn ôl yn 2010.

Parhad...

2. Cyflawniadau Hyd Yma

Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy (2019-2025)

Mae Llywodraeth Cymru wedi ail-frandio'r cyn Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy. Cyflwynodd y Cyngor ei Raglen Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru yn 2017 gan sicrhau amlen gyllid o £85m mewn egwyddor. Mae'r rhaglen yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor a chyflwyno Achos Busnes i Lywodraeth Cymru fesul prosiect ac yn ei hanfod, mae wedi'i chysylltu â Chynllun y Cyngor, y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a fabwysiadwyd yn ddiweddar gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn defnyddio ffrydiau ariannu allanol a mewnol eraill hefyd i wneud y mwyaf o fuddsoddiad strategol yn y portfolio ysgolion. Gwnaed y cynnydd a ganlyn hyd yma:-

Ysgol Uwchradd Cei Connah - Cam 2

Roedd y buddsoddiad £4.3m yn dilyn Cam 1 ym Mand A a chafodd ei gwblhau yn hwyr yn 2019. Fel rhan o'r prosiect, darparwyd ardal weinyddol newydd, dymchwel y cyn floc gweinyddol, cladin newydd ar y neuadd chwaraeon a diweddarau'r prif wyneb, maes parcio gwell a gwaith ar y ffordd fynediad bresennol, addasiadau i'r gegin a'r ystafell fwyta, ailwampio/ailfodelu cyffredinol/ffenestri newydd ac roedd hefyd yn cynnwys TG ychwanegol a gwaith ar gydymffurfiaeth o ran hygyrchedd.

Prosiect Campws Queensferry

Roedd gwerth y prosiect Campws dros £11m ac fe'i cwblhawyd yn y gwanwyn 2022. Roedd y gwaith yn cynnwys ailwampio ac ailfodelu ysgol gynradd 3-11 oed i hyd at 180 o ddisgyblion, cael gwared ar ddarpariaeth Uned Cyfeirio Disgyblion ar sawl safle ac adeiladu Uned Cyfeirio Disgyblion newydd (Plas Derwen) i hyd at 111 o ddysgwyr diamddiffyn o 4-16 oed sy'n cael anhawster cael mynediad at addysg prif ffrwd ac sydd angen ymyrraeth arbenigol ar gyfer eu heriau ymddygiadol, cymdeithasol ac emosïynol. Roedd hefyd yn cynnwys darparu canolbwynt cymunedol newydd (Tŷ Calon) gyda chyllid gan Grant Dysgu Cymunedol Llywodraeth Cymru, Dechrau'n Deg a chyfraniad gan Undeb Rygbi Cymru.

Ysgol Glan Aber, Bagillt

Cafodd y Cyngor grant o £1.3m ar gyfer Ysgol Glan Aber, Bagillt dan gronfa maint dosbarthiadau babanod Llywodraeth Cymru, a ychwanegwyd at y buddsoddiad o £997,000 a gytunwyd yn Rhaglen Gyfalaf y Cyngor. Galluogodd hyn i brosiect mwy gwerth £2.7m fynd yn ei flaen ar gyfer estyniad ac ailwampio, a chwblhawyd y gwaith yn ystod Gwanwyn 2020.

Ysgol Castell Alun, Yr Hôb

Cafodd y prosiect £7.6m i adeiladu bloc Celf, Dylunio a Thechnoleg a dosbarthiadau ei gwblhau a'i ddefnyddio ym mis Medi 2021 fel y bwriadwyd, a dilynodd y gwaith allanol o ailwampio a rhoi wyneb newydd ar y Cae Pob Tywydd presennol.

Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug

Cafodd y prosiect yn Ysgol Glanrafon ei ariannu i ddechrau drwy gyllid allanol gan Lywodraeth Cymru, drwy'r grantiau Cyfrwng Cymraeg a Gofal Plant, a sicrhawyd y gweddill drwy ddyraniadau Atgyweirio a Chynnal a Chadw'r Cyngor, cyfraniadau A106 a swm bychan o gyllid Salix drwy dîm ynni'r Cyngor i gefnogi mesurau effeithlonrwydd ynni. Dechreuodd gwaith adeiladu'r prosiect £4.2m ar y safle ym mis Tachwedd 2020 a chafodd ei gwblhau yn hwyr yn y gwanwyn 2022.

Ysgol Brynffordd

Mae hwn yn brosiect a ariennir gan y Cyngor i adeiladu estyniad ac ailwampio'r ysgol bresennol, gyda buddsoddiad o tua £1.090m yn yr ysgol a gwblhawyd yn gynt na'r disgwyl ym mis Ionawr 2022. Roedd y prosiect yn cynnwys estyniad i neuadd yr ysgol, ystafell gymunedol a storfa, dosbarth meithrin/derbyn newydd, llyfrgell ac ystafell staff a thoiled. Mae'r gwaith hefyd wedi cynnwys aildrefnu'r adeilad presennol i greu ystafell newydd i'r Pennaeth a lle ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Ystâd Amaethyddol

Yn dilyn adolygiad o'n Hystâd Amaethyddol yn 2011, rydym wedi parhau i waredu ein fferymydd a thyddynnod yn unol â'n polisi gwaredu pan fyddant yn dod yn wag. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi creu dros £7m mewn derbyniadau cyfalaf drwy'r gwaith hwn. Fodd bynnag, mae trafodaethau cenedlaethol wedi dechrau o ran Bil Amaethyddiaeth Cymru, a allai gael effaith ar ein strategaeth gyfredol. Felly, bydd y sefyllfa hon yn cael ei monitro, ac os bydd y Bil hwn yn cael ei ddwyn ymlaen gan Lywodraeth Cymru, bydd ar y Cyngor angen adolygu ei bolisi ac ystyriaethau gwaredu i'r dyfodol.

3. Cynllunio Rheoli Asedau yn Sir y Fflint - Y Ffeithiau Allweddol

Rheoli Asedau Eiddo

Mae Cyngor Sir y Fflint (CSyFf) yn rheoli portffolio eiddo o dros 7,845 eiddo, mae 7,315 ohonynt yn gartrefi sy'n cael eu rheoli drwy bortffolio ei dîm Tai a 530 yn eiddo a reolir drwy ei dîm Prasio ac Ystadau, sy'n cynnwys dau fath penodol o eiddo:

Eiddo Gweithredol

Eiddo gweithredol yw'r rhai a ddefnyddir i gefnogi darpariaeth uniongyrchol gwasanaethau'r Cyngor megis ysgolion, canolfannau gwasanaeth a depos ynghyd â'r rhai sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau partner megis Hamdden a Llyfrgelloedd Aura. Ar hyn o bryd, mae 161 o asedau eiddo gweithredol.

Eiddo Anweithredol

Eiddo Anweithredol yw'r rhai a ddefnyddir i alluogi'r Cyngor i gefnogi mannau busnes lleol a datblygiad economaidd, cefnogi amcanion cynllunio corfforaethol/cymunedol yn anuniongyrchol a darparu ffrwd referniw i'r Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i reoli asedau eiddo yn effeithlon ac effeithiol i gefnogi darpariaeth gwasanaethau a blaenoriaethau. Mae Gwasanaethau Cynnal a Chadw Eiddo yn llunio ac yn monitro'r dangosyddion canlynol i helpu i reoli'r portffolio eiddo.

Mae rhaglen dreigl o waith cynnal a chadw wedi ei llunio yn seiliedig ar arolygon cyflwr cychwynnol, fydd yn cael eu hadolygu'n gylchol ddim llai na bob 5 mlynedd.

Mae adeiladau'n cael eu dosbarthu yn unol â'u cyflwr â lefelau blaenoriaeth yn unol â dangosyddion perfformiad LIC.

Categoriâu Cyflwr:

A	B	C	D
Da	Bodddhaol	Gwael	Gwael iawn

Categoriâu Blaenoriaeth:

Blaenoriaeth 1	Blaenoriaeth 2	Blaenoriaeth 3
Brys - Atal cau	Hanfodol - angen gwaith mewn 2 flynedd	Dymunol - angen gwaith mewn 5 mlynedd

Gwybodaeth am Gyflwr Eiddo Gweithredol

Defnydd/Math o Eiddo	Safleoedd	Cyflwr				Blaenoriaeth1 Brys	Blaenoriaeth2 Hanfodol	Blaenoriaeth 3 Dymunol	Cyfanswm Blaenoriaeth 1-3
		A	B	C	D				
Uned Ymddygiad	3	2	1	0	0	£1,259	£4,450	£0	£5,709
Canolfannau Cymunedol/Ieuenctid	16	0	11	5	0	£65,355	£342,878	£291,456	£699,689
Llyfrgelloedd (Partneriaeth)	6	0	3	3	0	£65,665	£103,447	£82,185	£251,297
Pafiliynau Chwaraeon	7	0	6	1	0	£0	£70,722	£15,858	£86,580
Canolfannau Hamdden a Phyllau Nofio (Partneriaeth)	4	0	4	0	0	£0	£802,508	£533,559	£1,336,067
Ysgolion Cynradd	65	4	54	7	0	£119,154	£3,580,657	£4,187,722	£7,887,533
Ysgolion Uwchradd	11	1	8	2	0	£122,650	£1,498,246	£1,506,649	£3,127,545
Cyfleusterau Arbennig (Eraill)	5	4	1	0	0	£5,900	£4,450	£202,217	£212,567
Swyddfeydd ac Adeiladau Gweinyddol	6	0	6	0	0	£17,691	£544,604	£5,578,260	£6,140,555
Depos	1	0	1	0	0	£0	£10,503	£0	£10,503
Theatrau	1	0	0	1	0	£328,900	£3,596,110	£4,635,661	£8,560,671
Cartrefi Gofal Preswyl	3	2	1	0	0	£16,003	£9,085	£113,300	£138,388
Canolfan Dysgu Oedolion	7	2	5	0	0	£16,695	£278,249	£271,823	£566,767
Amgylchedd	8	0	5	3	0	£70,928	£328,635	£306,309	£705,872
Ffermydd	16	6	9	1	0	£3,948	£300,772	£173,539	£478,259
Daliadau Tir	2	0	1	1	0	£0	£111,959	£22,659	£134,618
Cyfanswm	161	21	116	24	0	£834,148	£11,587,275	£17,921,197	£30,342,620

Data Asedau Cryno (Adroddiad Statws PI CAM) ar 1 Ebrill 2022

Asedau Gweithredol

Data Asedau Cryno (Adroddiad Statws CAM) ym mis Mai 2022. Mae gan y Cyngor ystod amrywiol o asedau gweithredol fel y rhestrir yn y tabl isod:

Defnydd/Math o Eiddo	Nifer
Ysgolion	81
Uned Cyfeirio Disgyblion	1
Tai Gofalwyr	3
Eiddo Amrywiol	31
Llyfrgelloedd	6
Canolfannau Ieuencid	9
Canolfannau Cymunedol	13
Canolfannau Cymunedol - Arall	1
Pyllau Nofio	3
Canolfannau Cyfleoedd Gwaith	1
Canolfannau Dydd	2
Cartrefi Preswyl	3
Toiledau Cyhoeddus	6
Mynwentydd	13
Safleoedd Amwynderau Dinesig	7
Depos	1
Swyddfeydd y Cyngor	9
Asedau Gweithredol Amrywiol	2
Cartrefi Preswyl Plant	3
Marchnadoedd	1
Sefydliadau Addysgol	8
Canolfannau Chwaraeon a Hamdden	7
Caeau/clybiau Chwaraeon	19
Parciau a Mannau Agored	5
Caeau Chwarae/Tir Hamdden	72
Mannau Chwarae	159
Mannau Amwynder	46
Rhandiroedd	13
Henebion	11
Lawntiau/Clybiau Bowlio	23


O ran ein hysgolion, mae gan y Cyngor System Rheoli Asedau gyfredol a defnyddir data o'r system i helpu i benderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn y rhwydwaith ysgolion.

Cynhelir arolygon cyflwr drwy gytundeb fframwaith gyda'r sector preifat ac fe'u cynhelir gan syrfewyr RICS cymwys mewn cylch treigl o bum mlynedd. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno methodoleg safonol, bydd Sir y Fflint yn cyflwyno hwn i'w gylch treigl.

Mae'r holl wybodaeth asedau yn cael ei rhannu a'i dilysu ag ysgolion unigol. Yn y dyfodol, y dyhead yw y bydd hyn yn digwydd drwy System Rheoli Asedau yn y Cwmwl, pan fydd y system bresennol yn cael ei moderneiddio.

Ystâd Anweithredol

Mae gan y Cyngor bortffolio masnachol sylweddol hefyd, fel y dangosir isod:



Mae'r eiddo anweithredol hyn yn darparu incwm blyneddol o tua £1.5 miliwn ar hyn o bryd. Byddwn yn cynnal adolygiad manwl o'n portffolio diwydiannol, fydd yn helpu i benderfynu ar y strategaeth â'r budd economaidd mwyaf ar gyfer pob un o'r ystadau. Cwblheir yr adolygiad hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2023/2024.

Derbyniadau Cyfalaf

Mae'r Cyngor yn ceisio gwaredu asedau dros ben i gynhyrchu derbyniadau cyfalaf. Yn ystod y chwe blynedd diwethaf, rydym wedi gwerthu asedau gwerth bron i £9 miliwn i gyd. Hefyd, rydym wedi defnyddio tir y Cyngor i fuddsoddi a datblygu tai cymdeithasol a fforddiadwy newydd drwy'r rhaglen SHARP.

2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
(2,099,329.91)	(2,921,427.20)	(2,296,013.34)	(1,618,000.00)	(1,292,616.00)	(894,000.00)

4. Strategaeth Asedau - Y Darlun Ehangach

Y Cyd-destun Strategol Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei rhaglen o amcanion lles yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn 2019, datganodd Llywodraeth Cymru Argyfwng Hinsawdd yng Nghymru, gan osod cynlluniau i'r sector cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel' yn nodi dull Llywodraeth Cymru o dorri allyriadau carbon o'r sector hwn. Mae Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021 yn cynnig mwy o dargedau hinsawdd uchelgeisiol i Gymru ddod yn genedl ddi-garbon erbyn 2050. O ran bioamrywiaeth, mae'r Cyngor yn parhau i gydymffurfio â'i ddyletswydd dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, drwy gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwynwch ecosystemau. Mae hyn hefyd yn cysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan wneud y mwyaf o gyfraniadau at y nodau lles. Ymhlith polisiâu a chynlluniau cenedlaethol eraill mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Adfer Natur, Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr a datganiadau argyfwng yr Hinsawdd a Natur. Bydd angen ystyried y Rheoliadau a'r Deddfau hyn ynghyd â ffactorau eraill pan fyddwn yn adolygu ac yn ystyried defnydd tir.

O safbwynt rheoli asedau, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Ystadau Cymru (y cyn Weithgor Asedau Cenedlaethol) sy'n annog rhagoriaeth wrth reoli ystâd sector cyhoeddus Cymru drwy hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd strategol ar draws ffiniau daearyddol a sefydliadol.

Mae effaith Brexit a'r pandemig wedi achosi heriau sylweddol i'n rhaglen fuddsoddi â phroblemau â llafur a'r gadwyn gyflenwi a chynnydd chwyddiant digynsail mewn costau adeiladu. Fodd bynnag, er gwaetha'r heriau hyn, mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu ei gynlluniau buddsoddi a gynlluniwyd.

Y Cyd-destun Ariannol

Mae'r amgylchedd ariannol parhaus a heriol yn parhau i greu problemau i'r Cyngor. Mae'r gyllideb refeniw yn parhau dan bwysau sylweddol ac yng nghyd-destun y Rhaglen Gyfalaf, mae'r gallu i greu derbyniadau cyfalaf drwy waredu asedau tir ac eiddo'r Cyngor yn gyfyngedig wrth i gyfleoedd i waredu ei dir ei hun leihau. Mae'r senario hon yn creu problemau i ddarparu unrhyw raglen ac mae angen adolygu'r prosiectau yn y rhaglen fesul achos i benderfynu a yw adnoddau cyfalaf ar gael neu a ddylid olrhain mecanweithiau ariannu eraill, megis Benthycia Darbodus.

5. Y Cyd-destun Strategol Rhanbarthol

Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Creodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fframwaith ar gyfer mecanwaith cyson o gydweithio rhanbarthol rhwng llywodraeth leol, sef y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Yn y Ddeddf, sefydlwyd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy Reoliadau.

Lluniwyd y Rheoliadau oedd yn creu pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig ("y Rheoliadau Sefydlu") ar 17 Mawrth 2021 ac fe'u sefydlwyd ar 1 Ebrill 2021, yn seiliedig ar yr ardaloedd daearyddol y gofynnwyd amdanynt gan lywodraeth leol ac yn adlewyrchu trefniadau cydweithio rhanbarthol presennol.

Bellach, mae gan bob rhanbarth yng Nghymru Gyd-bwyllgor Corfforedig, ac mae Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru yn cynnwys yr Awdurdodau Lleol canlynol; Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn fecanwaith ar gyfer gwneud pethau'n wahanol gyda phwyslais rhanbarthol ym meysydd dynodedig Cludiant, Cynllunio Strategol a'r Economi. Mae'n cynnig cyfleoedd i symleiddio trefniadau cydweithio presennol, megis y rhai dan fargeinion Twf.

Mae'r model hefyd yn caniatáu i'r trefniadau rhanbarthol ar wahân a gafodd eu cynnig ar gyfer Cynllunio Datblygu Strategol a Chynllunio Cludiant Rhanbarthol i gael eu cyfuno dan un model - fel bod datblygiad economaidd, cludiant a dulliau cynllunio defnydd tir i gyd yn cyd-fynd er mwyn datblygu economïau rhanbarthol llwyddiannus ac annog twf lleol.

Uchelgais Gogledd Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Sefydlwyd y Bwrdd Uchelgais Economaidd gan bartneriaid awdurdod lleol fel cydbwyllgor yn 2019 a dyma'r corff gwneud penderfyniadau ar gyfer Bargaen Dwf Gogledd Cymru, yn ogystal â bod yn gyfrifol am arwain ar gydweithio economaidd rhanbarthol. Ym mis Tachwedd 2021, lanswyd brand newydd o'r enw Uchelgais Gogledd Cymru i gynrychioli gwaith y bwrdd. Y Fargen Derfynol yw'r contract rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ar gyfer darparu'r Fargen Dwf gwerth £1bn a chafodd ei sicrhau ar sail Achos Busnes Portffolio a pum Achos Busnes Rhaglen i sicrhau cyfanswm buddsoddiad o £240m (£120m gan Lywodraeth y DU a £120m gan Lywodraeth Cymru). Ar ôl sicrhau'r Fargen Derfynol, cytunodd y partneriaid i arwyddo ail Gytundeb Llywodraethu sy'n cefnogi'r bartneriaeth drwy gam gweithredu prosiectau'r Fargen Dwf a datblygiad pellach y Weledigaeth Twf i Ogledd Cymru.

Mae gwbyodaeth am gynnydd holl brosiectau'r Fargen Dwf ar gael [yma](#).

Prosiectau Cyfalaf Rhanbarthol

Cyfleuster Archif ar y Cyd, Cynghorau Sir y Fflint a Sir Ddinbych:

Mae'r cynllun arfaethedig hwn yn cydnabod ac yn ymateb i'r angen a'r galw am wasanaethau archif y ddau awdurdod lleol. Mae'r ddau wasanaeth mewn hen adeiladau, nad ydynt yn addas i bwrpas. Mae diffyg mannau cyhoeddus addas a storfeydd priodol ynddynt, maent yn rhy llawn i dderbyn casgliadau newydd ac maent yn adeiladau rhestredig â diffyg cyfle i addasu, ac yn ddud i'w cynnal a'u cadw. Y cynnig yw adeiladu adeilad newydd ar gampws Neuadd y Sir, gan greu canolbwynt diwylliannol i gynnwys yr archifau corfforol a gweithrediadau gwasanaeth newydd.

6. Y Cyd-destun Strategol Lleol

Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor 2022- 2030

Cafodd y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Chwefror 2022. Mae'r strategaeth yn gosod yr ymrwymiad i ddod yn Gyngor Di-garbon erbyn 2030. I gyflawni hyn, mae'n rhaid i'r Cyngor leihau faint o garbon mae'n ei allyrru a chynyddu faint o garbon mae'n ei amsugno. Mae ein hasedau'n cyfrannu llawer iawn at hyn oherwydd yr allyriadau carbon o ynni rydym yn ei ddefnyddio i gynhesu a phweru ein hadeiladau, a'r cyfleoedd i ddefnyddio tir ar gyfer ynni adnewyddadwy a phlannu i wrthwneud yr allyriadau carbon na allwn eu hatal. Cydnabyddir effeithiau newid yn yr hinsawdd yn rhyngwladol, felly mae arnom hefyd angen cynllunio ein hasedau ar gyfer yr hinsawdd sy'n newid - defnyddio dulliau gwresogi ac oeri naturiol, dylunio canol trefi ac ardaloedd preswyl yn seiliedig ar le, a mynediad i bawb at fannau gwyrdd. Mae'r strategaeth yn edrych ar reoli a gwella tir ar gyfer enillion bioamrywiaeth net wrth gynnwys mesurau lliniaru risg llifogydd naturiol.

Mae'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd yn ceisio:

- Lleihau faint o garbon sy'n cael ei allyrru o'i adeiladau drwy drydan, nwy, olew, LPG, biomas a dŵr. Gellir cyflawni hyn drwy wella effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau presennol a throsi adeiladau i ddatrysiadau gwresogi carbon isel a chynaeafu dŵr glaw. Gallwn ddylunio ac adeiladu pob adeilad newydd i garbon isel mewn safon gweithredu wrth addasu i hinsawdd y dyfodol a sicrhau bod carbon sydd wedi'i gynnwys hefyd yn isel i leihau'r effaith ar y gadwyn gyflenwi. Gall rhesymoli adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn gefnogi hyn hefyd.
- Cynyddu faint o ynni sy'n cael ei gynhyrchu drwy dechnolegau adnewyddadwy yn ei asedau adeiladau a thir, roddir blaenoriaeth i'r cynlluniau ble mae ein hadeiladau'n elwa o'r ynni a gynhyrchir.
- Cynyddu faint o garbon sy'n cael ei amsugno o dir y mae'r Cyngor yn berchen arno neu mae'n ei weithredu drwy blannu mwy ar dir presennol a chaffael safleoedd newydd pan fo angen. Gellir cyflawni hyn drwy adolygu'r broses benderfynu pan fydd tir yn cael ei resymoli er budd cynlluniau plannu mawr, rheoli risg llifogydd ac enillion bioamrywiaeth net.

Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir y Fflint 2015-2030

Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Datblygu Lleol i'w archwilio gan y cyhoedd ar gyfer ymgynghoriad yn hydref 2019 ac yn dilyn ystyried y sylwadau, ni chafodd y cynllun ei newid a chafodd ei gyflwyno ar gyfer Archwiliad Cyhoeddus gan y Cyngor ym mis Hydref 2020. Cynhaliwyd 20 sesiwn gwrandawriadau'r Archwiliad rhwng Ebrill a Mai 2021 gyda dwy sesiwn ddilysol benodol ym mis Medi a Thachwedd 2021 i ddelio â safle mawr yn Warren Hall Brychdyn, a mater yn ymwneud â Ffosffadau. Mae oedi wedi bod i'r CDLI oherwydd bod angen lleihau lefelau ffosffadau o ddatblygiadau newydd sy'n mynd i mewn i afonydd sy'n cael eu gwarchod mewn Ardal Gadwraeth Arbennig, sef Afon Dyfrdwy yn Sir y Fflint, drwy ei hisafon, Afon Alun. Llwyddodd y Cyngor i ddatrys y materion hyn gyda'r Arolygydd erbyn mis Chwefror 2022, ond yna bu'n rhaid aros am yr Etholiadau Llywodraeth Leol cyn symud ymlaen i gam terfynol y Cynllun.

Cyhoeddodd y Cyngor y newidiadau olaf i'r CDLI, sef y Newidiadau Materion yn Codi yn dilyn y broses Archwilio, ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 17 Mehefin a 29 Gorffennaf 2022. Bydd yr ymatebion a gafwyd yn cael eu hanfon at yr Arolygydd iddi eu hystyried yn ystod mis Awst 2022. Yn dilyn hyn, rhagwelir y bydd y Cyngor yn derbyn adroddiad yr arolygydd ar yr Archwiliad ym mis Medi 2022 ac yna bydd ganddo 8 wythnos i ystyried yr adroddiad a mabwysiadu'r cynllun. Mae adroddiad yr Arolygydd yn orfodol i'r Cyngor. Felly, dylai'r cynllun gael ei fabwysiadu'n derfynol erbyn diwedd mis Hydref 2022 a bydd wedyn yn disodli'r CDU a gosod y cyd-destun ar gyfer sut a ble bydd datblygiadau'n digwydd, ac yn sail i benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio.

Cynllun y Cyngor (2023 – 2028)

Mae'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac yn gryno, bydd yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor dros gyfnod y cynllun ac yn amlygu'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni. Fel gyda chynlluniau blaenorol, bydd yn defnyddio themâu a chamau gweithredu allweddol ble rydym yn ceisio cael effaith.

Strategaeth Tai a Chynllun Gweithredu Sir y Fflint (2019-2024)

Mae'r Strategaeth Tai a'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn drwy gydweithio gyda'n partneriaid strategol mewn ffordd ddeallus a dyfeisgar i gyflawni ein gweledigaeth. Mae'r Strategaeth yn cynnwys manylion ein prif flaenoriaethau a chamau gweithredu ar gyfer cyflawni yn ogystal â chydabod ein cynnydd hyd yma.

Strategaeth Moderneiddio Ysgolion

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am adolygu a moderneiddio holl ddarpariaeth ysgolion, er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr, fel y gallant gyflawni eu potensial llawn.

Felly, mae arnom angen adolygu ein darpariaeth ysgol i:

- sicrhau bod ein darpariaeth addysg o ansawdd uchel ac yn gynaliadwy;
- gwella ansawdd adeiladau ysgolion a chyfleusterau; a
- darparu'r nifer cywir o leoedd mewn ysgolion, o'r math cywir, yn y lleoliadau cywir.

Prif Ysgogwyr Moderneiddio Ysgolion:

- Gwelliant addysgol
- Arweinyddiaeth Ysgol Gadarn
- Adeiladau Addas
- Lleoedd heb eu llenwi
- Adnoddau sy'n lleihau

Strategaeth Ddigidol

Cynllun uchelgeisiol sy'n nodi sut y byddwn yn gwella ac yn symleiddio ein gwasanaethau. Nid yw hyn yn ymwneud â gwneud mwy o wasanaethau ar gael ar-lein yn unig, mae'n ymwneud â newid y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau i roi'r profiad gorau i bawb.

Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol (2022-2025)

Er bod y Cynllun Rheoli Asedau yn ddogfen sy'n ymwneud â thir ac adeiladau mewn gwirionedd, dylem gyfeirio at y Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol, gan mai ein gweithwyr yw ein hased fwyaf (a chost) a hebddynt, ni allem ddarparu gwasanaethau i gymunedau. Mae polisiau gweithio hyblyg y Cyngor yn effeithio'n uniongyrchol ar feysydd fel strategaeth llety'r Cyngor a hefyd hyrwyddo'r Cyngor fel lle gwych i weithio a helpu i recriwtio a chadw staff.

Cynllun Coed a Choetiroedd Trefol

Mae'r Cynllun Coed a Choetiroedd Trefol yn gosod targed o gyflawni gorchudd coed trefol o 18% erbyn 2033 o'r 14.5% (2013) presennol, y seithfed isaf yng Nghymru. Mae coed yn arwydd o'r byd naturiol oherwydd y rôl allweddol maent yn eu chwarae wrth liniaru newid yn yr hinsawdd, creu cynefinoedd a chynyddu bioamrywiaeth. O safbwynt dynol, derbynnir bod coed yn cael effaith gadarnhaol ar ein hiechyd meddyliol a chorfforol, yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Mae camau gweithredu yn Adran 6 y Cynllun Bioamrywiaeth yn cefnogi targedau yn y Cynllun Coed a Choetiroedd Trefol yn uniongyrchol. Adran 6.

Cynllun Bioamrywiaeth

"Cefnogi Natur yn Sir y Fflint" yw ail gynllun bioamrywiaeth Cyngor Sir y Fflint, sy'n amlinellu sut ydym, fel sefydliad, yn bwriadu mynd i'r afael â'n dyletswydd bioamrywiaeth dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Fe ellir mynd i'r afael â'r holl brif fygythiadau i natur gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, gor ecsplotiaeth, colli cynefin a rhywogaethau goresgynnol drwy fyw yn fwy cynaliadwy, sydd wrth wraidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dyma pam mae'r holl gamau gweithredu yn y Cynllun yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy sy'n cael eu hadnabod hefyd fel y "5 ffordd o weithio" a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r cynllun hwn yn effeithio ar sut rydym yn ystyried defnydd tir yn y Cyngor.

Strategaeth Datblygu Economaidd

Mae Strategaeth Datblygu Economaidd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd sy'n cefnogi Twf ac Adfywiad y Sector Busnes. Y gobaith yw y bydd wedi ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2023.

Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd

Mae strategaeth y Cyngor ar gyfer rheoli a chynnal a chadw asedau priffyrdd yn seiliedig ar y cod ymarfer "Isadeiledd Priffyrdd wedi'i Reoli'n Dda" a gyhoeddwyd gan Grŵp Cyswllt Ffyrdd y DU ym mis Hydref 2016, ac a gomisiynwyd gan yr Adran Drafnidiaeth.

Mae asedau priffyrdd sy'n cael eu hystyried yn y broses hon yn cynnwys lonydd cerbydau, troedffyrdd, adeileddau, goleuadau stryd, systemau rheoli traffig a marciau ffordd. Mae'r pwyslais yn bennaf ar yr elfennau hynny a ystyrir eu bod o werth uchel neu risg uchel. Dilyniir yr egwyddorion hyn fel rhan o'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd a chynhelir cyfarfodydd misol i gytuno ar strategaethau ar gyfer buddsoddi mewn grwpiau asedau priffyrdd a sicrhau bod asedau priffyrdd yn cael eu rheoli'n well a bod y gwerth gorau am fuddsoddiad priffyrdd yn cael ei gyflawni.

Cynlluniau Busnes Portffolio

Fel rhan o gynllunio busnes ar lefel Portffolio, bydd Prif Swyddogion yn cynnwys gofynion cyfalaf ac asedau tymor canolig - bydd hyn yn rhoi cyswllt clir i fapio a chefnogi meddwl strategol ac yn nodi meysydd penodol ble bydd gofynion cyfalaf neu faterion yn ymwneud ag asedau i'w hystyried. Bydd cynnwys goblygiadau cyfalaf ac asedau mewn cynlluniau busnes Portffolio yn golygu y bydd gofyn i wasanaethau ystyried eu gofynion yn llawer cynharach, ac yna gellir eu hystyried ar sail blaenoriaeth i'r Cyngor cyfan, wedi eu cysylltu'n glir â chynlluniau busnes portffolios, Cynllun y Cyngor a chynlluniau strategol eraill dros gyfnod canolig.

Gweithio ar draws Portffolios

Mae Grŵp Cynllunio Cyfalaf yn ei le ac yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bortffolios y Cyngor, sy'n sicrhau trosolwg strategol priodol ac sydd hefyd yn caniatáu rhannu gwybodaeth, sy'n gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd buddsoddiad strategol i brosiectau unigol ac ardaloedd.

Y Rhaglen Gyfalaf

Mae llawer iawn o orgyffwrdd rhwng cynllunio asedau a chynllunio cyfalaf, ar lefel strategol a gweithredol. Mae cynllunio cyfalaf yn ymwneud â buddsoddiad neu wariant cyfalaf, sy'n wahanol i wariant refeniw neu gostau rhedeg. Gellir diffinio gwariant cyfalaf fel gwariant ar asedau fydd yn dod â budd i'r sefydliad y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol. Mae hyn yn cynnwys gwariant ar:

- brynu asedau newydd
- creu asedau newydd
- gwella a/neu ymestyn oes defnyddiol asedau presennol

Gall y ffordd y mae asedau'n cael eu rheoli o ddydd i ddydd gael goblygiadau sylweddol ar y rhaglen gyfalaf. Gall lefelau annigonol o gynnal a chadw rheolaidd a buddsoddiad cyfalaf gynyddu cost refeniw cynnal a chadw adweithiol, sy'n ddrud, a'r gwariant cyfalaf sydd ei angen yn y tymor hir. Enghraifft dda o hyn yw cynnal a chadw priffyrdd, ble mae torri cyllidebau cyfalaf yn tueddu i arwain at fwy o wariant refeniw i gau tyllau. Mae lefelau annigonol o gynnal a chadw rheolaidd a buddsoddiad cyfalaf hefyd yn lleihau gwerth y derbyniadau cyfalaf y gellir eu cyflawni drwy waredu asedau. Felly, dylai Cynlluniau Rheoli Asedau fod yn seiliedig ar ddull integredig o reoli asedau o ddydd i ddydd a'r cynlluniau hirdymor ar gyfer yr asedau hynny yn seiliedig ar y strategaeth asedau. Mae'n bosibl bod ased mewn cyflwr da, ond nad yw'n addas bellach at y diben y mae'n bodoli ar ei gyfer. Er enghraifft, efallai bod ysgol mewn cyflwr da, ond bod llawer o ddosbarthiadau â maint neu siâp anaddas a/neu ddiffygion o ran llety o'i gymharu â'r arweiniad bwletin adeiladu ysgolion perthnasol, gan ei gwneud yn amgylchedd anaddas ar gyfer darparu addysgu yn y 21ain ganrif.

7. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Mae'r Strategaeth yn rhagweld lefelau ariannu a gofynion adnoddau dros y tymor canolig, yn nodi'r bwlch rhwng y ddau ac yn galluogi i gamau penodol gael eu nodi i gydbwysu'r gyllideb a rheoli adnoddau.

Bydd unrhyw gynllun buddsoddi mewn asedau sy'n arwain at brosiect cyfalaf yn cael effaith ar y gyllideb referniw, a hynny'n bositif a negyddol. Gall hyn fod yn arbedion i gostau rhedeg, cynlluniau sy'n creu incwm neu gostau referniw gwasanaethu unrhyw fenthycyca sy'n gysylltiedig â'r cynllun. Mae'n hanfodol felly bod cylchoedd y cyllidebau cyfalaf a referniw yn cyd-fynd â'i gilydd i sicrhau bod y goblygiadau referniw hynny yn cael eu costio'n gywir a'u bod yn bwydo i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Bwrdd Rhaglen Gyfalaf ac Asedau

Mae'r Bwrdd Rhaglen Gyfalaf ac Asedau'n cynnwys grŵp o uwch swyddogion o bob portffolio Uwch Swyddog sydd â diddordeb, agwedd ragweithiol a brwdfrydedd tuag at ddatblygu a rheoli ffrydiau gwaith yn ymwneud â rhaglen gyfalaf y Cyngor a'r sylfaen asedau ehangach. Bydd y bwrdd yn rheoli ac yn goruchwyllo'r gweithgareddau canlynol:

- Cynllunio Derbyniadau Cyfalaf (rheoli darpariaeth derbyniadau cyfalaf i wneud y mwyaf o adnoddau ar gyfer y rhaglen gyfalaf);
- Blaengynllunio'r rhaglen gyfalaf (i edrych ymlaen a rhagweld eitemau gwaith tebygol ar gyfer rhaglenni cyfalaf y dyfodol a deall y goblygiadau referniw posibl)
- Prif reolaeth o'r rhaglen gyfalaf (i sicrhau bod prif eitemau'r rhaglen yn cael eu gwneud ar amser a darparu Rhaglen Graidd y Cyngor a rhaglenni gwaith eraill y cytunwyd arnynt - Cynllunio Busnes Portffolio a Chynlluniau Buddsoddi);
- Ystyried adroddiadau i'r Cabinet, y Cyngor neu Bwyllgorau Craffu o ran darparu'r rhaglen gyfalaf;
- Strategaeth Cyfalaf a Rheoli Asedau (datblygu a chynnal y strategaeth gan sicrhau cysylltiadau strategol â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig);
- Cynllunio asedau'r sector cyhoeddus a rennir (datblygu datrysiadau partneriaeth i ddarparu asedau strategol drwy adnoddau a rennir);
- Cynllunio a rheoli dibrisiad yr ystâd (rheoli asedau, cadw, strategaethau a chynlluniau gwaredu);
- Strategaeth a rheoli cytundebau cynllunio Adran 106 ac unrhyw gyfraniadau eraill at gynlluniau cyfalaf;
- Adfywio ac ysgogi'r farchnad (drwy ystyried cynigion ar gyfer adfywio ehangach, cysylltiadau â SHARP a'r cyfraniad y mae tir ac eiddo'r Cyngor yn ei wneud i'r gweithgaredd hwn gan weithredu fel catalydd neu lifer).
- Datrysiadau cyllid cyfalaf creadigol (archwilio cyfleoedd yn rheolaidd ar gyfer datrysiadau cyllid arloesol sy'n lleihau baich ffioedd llog ac effaith referniw);
- Paratoi adroddiadau i'w hystyried yn ymwneud â gwaredu tir, caffael a gosod;
- Cyfrannu'n rhagweithiol at ddarparu Strategaeth Trosglwyddo Asedau Cymunedol y Cyngor a phan fo'n briodol, strategaethau Model Cyflawni Amgen.

8. Cynllunio Rheoli Asedau yn Sir y Fflint - Ble Mae Arnom Eisiau Bod

Nod ein Strategaeth Asedau corfforaethol hirdymor yw symud tuag at y portffolio asedau gorau posibl a gwneud yr incwm gorau posibl. Er mwyn cyflawni'r portffolio asedau gorau posibl, rydym wedi ystyried pa asedau y mae arnom eu hangen i gyflawni amcanion corfforaethol y Cyngor yn effeithlon. Mae'r Strategaeth Asedau yn ymwneud yn uniongyrchol â dibenion y Cyngor: y gwasanaethau rydym yn gyfrifol am eu darparu a'r swyddogaethau statudol rydym yn gyfrifol am eu cyflawni. Mae'n cysylltu'r asedau rydym eu hangen er mwyn darparu gwasanaethau a chyflawni ein swyddogaethau.

Nid dim ond yr asedau hynny y byddai'r Cyngor yn hoffi eu cael pe bai adnoddau'n ddiderfyn yw'r portffolio gorau posibl, ond yr asedau hynny sy'n ein galluogi i ddarparu amcanion corfforaethol, gan ystyried y gwerth cyffredinol am arian ac anghenion ein cymunedau lleol.

Mae'r ddogfen strategol lefel uchel hon yn cyfeirio at y cynllun rheoli asedau mwy manwl a ddatblygwyd mewn portffolios, er enghraifft; y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd, Moderneiddio Ysgolion, Cynllun Rheoli Asedau Prifffyrdd, Cynllun Busnes Tai, Eiddo Corfforaethol, Ystadau Diwydiannol, Ystâd Amaethyddol a'r Strategaeth Ddigidol.

Ar lefel uchel ar gyfer y categorïau gwahanol o asedau, mae'r strategaeth yn cynnwys ein cynlluniau ar gyfer:

- Gweithredu ar garbon isel ac amsugno mwy o garbon ar draws ein hasedau
- Prynu ac adeiladu asedau newydd i safonau carbon isel neu ddi-garbon ac fel ffordd o amsugno mwy o garbon a lleihau ein costau ynni
- Buddsoddi mewn asedau presennol a'u cyfnewid
- Trosglwyddo asedau i sefydliadau eraill, h.y. Trosglwyddo Asedau Cymunedol
- Gwaredu asedau nad oes arnom eu hangen bellach
- Mae'n nodi'r addasiadau hirdymor sydd eu hangen i bortffolio asedau'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau effeithlon yn y dyfodol
- Mae'n cysylltu â gwahanol strategaethau eraill y Cyngor yn cynnwys Cynllun y Cyngor, Cynlluniau Busnes Portffolios a strategaethau corfforaethol eraill i nodi'r newidiadau sydd eu hangen i bortffolio asedau'r Cyngor
- Ar y cyd â'r Strategaeth Gyfalaf, rheoli lefel y buddsoddiad sydd ei angen o fewn yr adnoddau cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael
- Penderfynu pa asedau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol
- Ceisio gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gynhyrchu lefelau incwm cynaliadwy, drwy rent er enghraifft, wrth leihau rhwymedigaethau'r Cyngor
- Herio ein hystâd bresennol yn feirniadol, parhau â'r rhaglen o resymoli asedau, gan sicrhau bod asedau sy'n cael eu cadw yn effeithiol, effeithlon a chynaliadwy i ddarparu gwasanaethau.

Prif Nodau

Yn dilyn ymgynghori â meysydd gwasanaeth ac ystyried gofynion o fewn cyd-destun y strategaeth gyfalaf, dynodwyd y prosiectau posibl a ganlyn.

Mae'r cynlluniau hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun y Cyngor (2023-2028).

Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)

Mae'n nesáu at ddiwedd proses Archwilio Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (2015 - 2030) yn dilyn yr ymgynghoriad ar Newidiadau'r Materion sy'n Codi. Yn amodol ar ryddhau Adroddiad cadarnhau'r Arolygydd, rhagwelir y gellir mabwysiadu'r Cynllun yn hydref 2022.

Mae'r CDLI yn darparu cyfanswm o 124.97 hectar o dir cyflogi a tua 8-10,000 o swyddi posibl. Mae ynddo ddarpariaeth ar gyfer 7870 o dai newydd er mwyn darparu'r gofyniad o 6,950 o dai, drwy lwfans hyblygrwydd mewnol. Yn ystod 5 mlynedd gyntaf cyfnod y Cynllun, mae 2,609 o dai wedi cael eu cwblhau eisoes, ac mae'r Cynllun ar amser o ran darparu tai. Bydd gweddill y tai'n cael eu darparu drwy gymysgedd o ymrwymadau tai (safleoedd â chaniatâd cynllunio), darpariaeth ar gyfer safleoedd ar hap bach a mawr na ddynodwyd, y dyraniad strategol defnydd cymysg ym Mhorth y Gogledd ac 11 dyraniad tai pellach heb fod yn strategol. Mae diddordeb gan ddatblygwyr ym Mhorth y Gogledd a'r 11 safle heb fod yn strategol, sy'n sicrhau y gellir eu darparu o fewn cyfnod y Cynllun yn unol â llwybr tai y Cynllun. Mae gan y Cynllun hefyd ail dyraniad strategol yn Warren Hall Brychdyn, gyda'r bwriad o ddarparu parc busnes B1 a B2 o ansawdd uchel â gwesty.

Mae darpariaeth y Cynllun ar gyfer twf yn cyd-fynd â fframwaith o bolisiau sy'n ceisio sicrhau bod gwelliannau isadeiledd priodol ac angenrheidiol yn cael eu sicrhau ochr yn ochr â datblygiadau newydd. Mae'r polisiau hefyd yn ceisio gwarchod yr amgylchedd naturiol a chreu gwelliannau, yn enwedig drwy ddarparu isadeiledd gwyrdd mewn cysylltiad â datblygu tai.

Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (cyn raglen fuddsoddi Llywodraeth Cymru, Ysgolion yr 21ain Ganrif)

Mae fersiwn bresennol rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Band B) i fod i ddod i ben erbyn 2024/25. Wrth i bob un o'r cynlluniau sy'n weddill gael eu cynnig i'w cymeradwyo, bydd angen dod i benderfyniad gan ystyried pa mor fforddiadwy ydyw yng nghyd-destun y sefyllfa ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Bydd angen i elfen ariannu Sir y Fflint o'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu gael ei ariannu o Fenthyca Darbodus.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Rhaglen Strategol Amlinellol y Cyngor ar gyfer y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Band B) mewn egwyddor yn 2017, a thrwy wneud hynny roeddent wedi cytuno ar amlen gyllid. Mae'r rhaglen yn cael ei hariannu ar hyn o bryd â chyfradd ymyrryd y cytunwyd arni rhwng LIC/y Cyngor. Mae cyfradd ymyrryd LIC ar gyfer y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ar hyn o bryd fel a ganlyn:

- Ysgolion Cymunedol LIC 65%/y Cyngor 35%
- ADY/UCD LIC 75%/y Cyngor 25%
- Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr LIC 85%/15% Llywodraethwyr ac yn olaf
- Model Buddsoddiad Cydfuddiannol, cynnyrch yn seiliedig ar refeniw a chylch bywyd, LIC 81%/Cyngor19%

Ar hyn o bryd mae'r prosiectau buddsoddi yn yr ysgolion a ganlyn ar y gweill gan y Cyngor:

Ysgol Croes Atti, safle Glannau Dyfrdwy - Ariennir y prosiect arfaethedig hwn drwy Grant Gofal Plant Llywodraeth Cymru a rhaglen fuddsoddi Ysgolion y 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Mae'n rhan o becyn gwaith estynedig, ble bydd buddsoddiad o tua £1.1m yn y safle yng Nglannau Dyfrdwy, gan wella darpariaeth addysg Gymraeg yn ardal Shotton - rhan bwysig o Strategaeth Cymraeg mewn Addysg y Cyngor. Dechreuodd y gwaith adeiladu ar y safle ym mis Ionawr 2022 a disgwyliar iddo gael ei gwblhau yn ystod hydref 2022.

Ysgol Croes Atti, y Fflint - Bydd y prosiect arfaethedig hwn yn disodli'r ysgol bresennol ar safle newydd yn y Fflint. Bydd y Prosiect yn cynnig lle i 240 o ddisgyblion a bydd yn cynnwys darpariaeth y blynyddoedd cynnar a gofal estynedig. Bydd y Prosiect yn cael ei adeiladu i safon Di-garbon a bydd ganddo Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) dosbarth A a Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu rhagorol. Hon fydd Ysgol Gymraeg newydd gyntaf y Cyngor..

Ardal Bwcle/Mynydd Isa - Mae'r Cyngor wedi cyflwyno datganiad o ddi-ddordeb llwyddiannus am gyllid Cyfrwng Cymraeg Cyfalaf a Refeniw ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cais yn tynnu sylw at y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal Bwcle/Mynydd Isa, fel y nodwyd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor. Bydd hyn yn awr yn cael ei ddatblygu fel bo'n briodol.

Mynydd Isa - Campws 3-16 oed, Mynydd Isa - Mae'r prosiect arfaethedig yn disodli Ysgol Uwchradd Argoed ym Mynydd Isa ac Ysgol Gynradd Gymunedol Mynydd Isa, sef yr ysgol gynradd olaf sydd ar ddau safle (darpariaeth ar wahân i fabanod a'r adran iau). Dyma Fodel Buddsoddiad Cydfuddiannol cyntaf Cymru ac mae hefyd yn brosiect braenaru Llywodraeth Cymru. Y Prosiect fydd ysgol Ddi-garbon gyntaf y Cyngor, o ran adeiladu a'i rhedeg. Bydd cylch bywyd o 25 mlynedd i'r campws newydd hefyd, eto y cyntaf o'i fath i'r Cyngor a Chymru. Rhagwelir y bydd y campws newydd yn barod erbyn mis Medi 2024.

Ysgol Gynradd Gymunedol Drury - Mae'r prosiect arfaethedig yn cael gwared ar ddosbarthiadau symudol ac yn ymdrin â phroblemau addasrwydd drwy ymestyn a moderneiddio'r ysgol bresennol i wneud lle i 180 o ddisgyblion.

Ysgol Gynradd Gymunedol Penyffordd - Adeiladwyd ysgol gynradd newydd yn lle'r cyn ysgol fabanod ac iau, a symudodd yr ysgol i'r adeilad newydd ym mis Medi 2019. Roedd y caniatâd cynllunio gwreiddiol ar gyfer yr ysgol newydd ym Mhenyffordd yn cynnwys estyniad gyda dau ddosbarth, fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol i 375 o ddisgyblion. Mae'r prosiect yn awr yn cael ei ddwyn ymlaen oherwydd galw lleol ac fe'i ariennir yn bennaf drwy gyfuniad o gyfraniadau gan ddatblygwyr Adran 106 at addysg a ychwanegwyd atynt gan raglen gyfalaf y Cyngor ei hun.

Ysgol Elfed Bwcle - Dynodwyd y prosiect hwn yn Rhaglen Strategol Amlinellol Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu i Lywodraeth Cymru a hefyd yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a bydd yn mynd yn ei flaen os bydd cyllid ar gael.

Prosiectau eraill sydd wedi eu cynnwys yn y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn Rhaglen Strategol Amlinellol (Band B) y Cyngor i Lywodraeth Cymru yw Ysgol Uwchradd Penarlâg, Ysgol Uwchradd y Fflint ac Ysgol Uwchradd Alun yr Wyddgrug. Fodd bynnag, awgryma gwybodaeth bod Llywodraeth Cymru yn symud oddi wrth amseru penodol ar ei raglen fuddsoddi ar gyfer y dyfodol gan fod Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru wedi gwneud cynnydd amrywiol yn eu rhaglenni buddsoddi ysgolion a cholegau. Yn hytrach, gofynnir i Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru gyflwyno eu rhaglenni buddsoddi pum mlynedd eu hunain yn seiliedig ar amseru a chyllid lleol. Nid yw'r cyfraddau ymyrryd ar gyfer rhaglen fuddsoddi ar gyfer y dyfodol LIC yn hysbys ar hyn o bryd.

Mae astudiaethau dichonoldeb strategol lefel uchel wedi cael eu cynnal ar uwchgynllunio'r safleoedd prif ffrwd cynradd ac uwchradd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol presennol yn y Fflint, yn cynnwys Ysgol Uwchradd y Fflint, Ysgol Maes Hyfryd, Ysgol Gwynedd y Fflint ac Ysgol Pen Coch. Mae'r astudiaeth hefyd yn ystyried y ddemograffeg ADY sy'n newid, integreiddio posibl yr Uned Anhawster Dysgu Cymedrol ac addasrwydd llety a phroblemau â chyflwr a nodwyd gyda'r ysgolion fel rhan o strategaeth fuddsoddi safle cyfan.

Rhaglen Fuddsoddi Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r sector gofal yn Sir y Fflint yn gweithio mewn amgylchedd sy'n mynd yn fwy a mwy heriol o ganlyniad i ystod o ffactorau, yn cynnwys cymhlethdod anghenion, poblogaeth sy'n heneiddio, costau cynyddol, disgwyliadau uwch, rheoleiddio ac anawsterau recriwtio a chadw staff o ansawdd uchel. O ganlyniad i'r pwysau hyn, mae llai o wytnwch ac mae Sir y Fflint dan bwysau penodol â dim ond nifer fechan o ddarparwyr annibynnol sy'n rhan o farchnad fregus, sy'n lleihau. Fel Cyngor, rydym yn cymryd agwedd bositif at ail-gydbwyso'r ddarpariaeth cartrefi gofal, gan greu gwytnwch a chymryd yr awenau fel awdurdod lleol i ddatblygu cartrefi gofal sy'n gwerthfawrogi pobl hŷn a darparu cymorth o ansawdd da, sy'n rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol.

Cartref Gofal Preswyl Croes Atti y Fflint – Mae prosiect arfaethedig sy'n disodli ac yn ymestyn darpariaeth gofal yn y Fflint i fodloni anghenion y nifer cynyddol o gleientiaid a'r safonau rheoleiddio ar gyfer darpariaeth gofal wedi'i gynnwys yn rhaglen buddsoddiad cyfalaf y Cyngor. Bydd y cyfleuster newydd ar safle'r hen ysbyty yn y Fflint ac mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Adolygu Llys Gwenffrwd, Cartref Gofal Treffynnon – Dyma ble mae'r nifer lleiaf o leoliadau cartref gofal ar gael ac nid yw'n addas i bwrpas, felly byddai'n elwa o adeiladu cyfleuster newydd ar safle mwy hygrych - bydd angen ystyried hyn ymhellach. Fel cartref gofal poblogaidd iawn, mae'r sefyllfa o ran gwelyau yn parhau yn anodd i'r economi iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n ddyhead felly bod prosiect buddsoddiad cyfalaf ar gyfer moderneiddio darpariaeth cartref gofal yn ardal Treffynnon yn rhan o raglen gyfalaf y Cyngor yn y dyfodol.

Canolfan Asesu Plant Tŷ Nyth – Prosiect ar y cyd rhwng Sir y Fflint a Wrecsam sy'n ailddatblygu eiddo Tŷ Nyth ac adeiladau eraill ar y safle yn yr Wyddgrug. Bydd yn darparu llety a chanolfan asesu newydd bwrpasol i Ogledd Ddwyrain Cymru. Bydd prif adeilad Tŷ Nyth yn cynnig opsiynau ar gyfer llety â chymorth hunangynhwysol tymor byr, gwelyau argyfwng i unigolion ifanc mewn perygl i osgoi derbyniadau amhriodol i ward paediatreg yr ysbyty, neu ar gyfer lleoliadau asesu tymor byr i riant a phlentyn. Mae'n bosibl cael darpariaeth gofrestrdig ar wahân yn yr eiddo pâr, y gellid ei ddefnyddio fel lleoliadau hirdymor a/neu ddarpariaeth asesu rhiant a phlentyn. Mae Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam wedi sicrhau Cyllid Integreiddio Gofal (Cyfalaf) Llywodraeth Cymru o £1.751m i ddarparu'r prosiect.

Maes Gwern, yr Wyddgrug – Bydd y datblygiad cyfalaf arfaethedig yn darparu canolbwynt gwasanaeth integredig canolog yn yr Wyddgrug, Sir y Fflint i ddarparu gwasanaethau dydd cynaliadwy, o ansawdd uchel i bobl ag anableddau dysgu. Bydd hyn yn caniatáu i'r gwasanaethau dydd yn Nhri Ffordd, Bretton gael eu symud i adeilad newydd pwrpasol. Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda'r partner darparu gwasanaeth, Hft i ddylunio a datblygu'r canolbwynt newydd. Bydd cydweithwyr lechyd BIPBC yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau integredig gofal cymdeithasol ac iechyd. Mae cynlluniau hefyd i'r tîm Gwasanaethau lechyd Meddwl gefnogi'r defnydd o wirfoddolwyr mewn darpariaeth gwasanaethau dydd.

Cronfa Ffyniant Bro

Agorodd Ail Rownd Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU ym mis Mai 2022. Yn unol â'r strategaeth ymgeisio y cytunwyd arni yn y Cabinet ym mis Ionawr 2022, cyflwynodd y Cyngor gais ar ran pob etholaeth seneddol fel a ganlyn:

Delyn – Mae cais am £14.64m wedi'i gyflwyno i Lywodraeth y DU i ddatblygu unedau diwydiannol newydd ym Mharc Busnes Maes Glas, dymchwel dwy uned adfeiliedig ac ailwampio un uned.

Alun a Glannau Dyfrdwy – Mae cais am £10.52m wedi'i gyflwyno i Lywodraeth y DU sy'n cynnwys y cynigion a ganlyn:

1. ailddatblygu Dociau Cei Connah;
2. adeiladu canolfan newydd ar gyfer Cadetiaid y Môr yn Nociâu Cei Connah;
3. gwella cyfleusterau chwaraeon a chymunedol yn safle cyn Glwb Cymdeithasol Corus Shotton; ac
4. adnewyddu tŵr y cloc yn Sealand.

Hefyd, mae Trafnidiaeth Cymru wedi cyflwyno cais trafndiaeth strategol ar ran y Cyngor a'r rhanbarth ehangach i wella'r rheilffordd rhwng Wrecsam a Bidston. Mae'r cais yn cynnwys gwelliannau i'r seidin nwyddau i hwyluso gwasanaeth mwy aml ar y llinell i drenau cario teithwyr a gorsaf newydd i Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn darparu £2.6 biliwn o fuddsoddiad hyd fis Mawrth 2025 ar draws y DU. Nod y rhaglen yw “meithrin balchder mewn lleoedd a chynyddu cyfleoedd bywyd”. Mae Llywodraeth y DU wedi dyrannu £126 miliwn i Ogledd Cymru i ddarparu'r rhaglen rhwng 2022/23 a 2024/25 ac roedd £10.8 miliwn wedi'i ddyrannu i Sir y Fflint ar gyfer y rhaglen graidd, sy'n gallu golygu costau refeniw a chyalaf.

Rheolir y rhaglen gan lywodraeth leol ar draws y DU. Dyrannir arian i lywodraeth leol ac ni ddisgwylir unrhyw gynigion cystadleuol. Roedd angen Strategaeth Fuddsoddi ranbarthol yn nodi'r dull o ddarparu'r rhaglen er mwyn rhyddhau'r arian ac fe'i cyflwynwyd yn gynnar ym mis Awst a disgwylir cymeradwyaeth ym mis Hydref 2022.

Bydd y rhaglen yn cael ei rheoli'n rhanbarthol, yn unol â disgwyliadau Llywodraeth y DU, ond bydd awdurdod lleol yn cadw'r cyfrifoldeb dros gymeradwyo cyllid o'u dyraniadau. Wrth ddatblygu'r rhaglen, disgwylir i lywodraeth leol ymgysylltu â budd-ddeiliaid gan gynnwys rhai o'r trydydd sector a'r gymuned fusnes ac i ddarparu cyfleoedd i sefydliadau sicrhau adnoddau o'r rhaglen i gyflwyno yn erbyn ei flaenoriaethau. Y disgwyl yw bydd mwyafrif cyllid y rhaglen yn cael ei ddyrannu drwy alwadau agored am gynigion prosiect a phroses ddedhol dryloyw. Fodd bynnag, oherwydd amserlen y rhaglen, disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r cyllid sydd ar gael yn 2022/23 yn cael ei ddyrannu gan y Cyngor drwy ddyfarniadau uniongyrchol.

Mae angen mwy o waith yn awr i ddatblygu'r llywodraethu rhanbarthol a lleol ar gyfer y rhaglen a'r meini prawf a'r prosesau ar gyfer dethol prosiectau.

Campws Neuadd y Sir

Y gofyniad i fynd â'r gwaith o ailddatblygu'r safle yn ei flaen er mwyn ymdrin ag anghenion y Cyngor a phartneriaid sector cyhoeddus eraill i'r dyfodol; i ddarparu ystod o ddewisiadau a dull integredig o amgylch y Llysoedd, Theatr Clwyd a'r Gwasanaeth Archif ar y Cyd ynghyd â datblygu'r safle yn fwy eang.

Ystadau Diwydiannol

Mae gan y Cyngor bortffolio eang o unedau a thir diwydiannol sy'n cynhyrchu incwm rhent o tua £1.5 miliwn y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r ystâd o adeiladau yn heneiddio ac ni fu fawr o fuddsoddi ynddi. I'r perwyl hwn, mae rhaglen adolygu wedi dechrau, fydd yn edrych ar hyfywedd pob ystâd i'r dyfodol.

Mae'r adolygiad cychwynnol wedi canolbwyntio ar eiddo'r Cyngor ym Maes Glas a'r Fflint yng nghyd-destun mynediad posibl at y Gronfa Ffyniant Bro.

Wedi hynny, mae angen parhau â'r adolygiadau fesul safle i alluogi strategaeth fanwl sy'n ystyried hyfywedd pob safle, a ddylid buddsoddi neu waredu neu chwilio am ddewis arall ar eu cyfer.

Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd

Mae'r Rhaglen Gyfalaf graidd yn cynnwys £1m y flwyddyn ar gyfer y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd. Yn 2021/22, fel yn y blynyddoedd blaenorol, ategwyd at hyn drwy grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifwyd mai'r buddsoddiad sydd ei angen i gynnal perfformiad presennol y rhwydwaith yw £3.2m y flwyddyn, cynnydd o £2.2m y flwyddyn. Cafodd y Cyngor gadarnhad gan LIC na fydd y Grant Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus yn parhau o flwyddyn ariannol 2022/23 ymlaen. Cafodd y Cyngor gadarnhad o Grant Cyfalaf Cyffredinol ychwanegol ym mis Chwefror 2022, ac mae cyfran o hwn wedi ei ddyrannu yn lle'r incwm grant a gollwyd yn 2022/23.

Strategaeth Ddigidol

Mae ein Strategaeth Ddigidol yn hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau digidol er mwyn darparu gwasanaethau gwell, mwy syml a mwy cost effeithiol i breswylwyr, busnesau ac ymwelwyr. Mae'r rhaglen yn cynnwys wyth prif thema a rhaglen gynlluniedig o brosiectau sy'n cael eu blaenoriaethu a'u hadrodd arnynt mewn cyfarfodydd rheoli corfforaethol a thrwy'r Bwrdd Strategaeth Ddigidol.

Un o'r themâu yw Darpariaeth Ddigidol a'i nod yw “darparu'r isadeiledd a systemau digidol diogel, dibynadwy, gwydn a chost effeithiol sydd eu hangen i danategu darpariaeth ffrydiau gwaith eraill a hwyluso newid sefydliadol”. Defnyddir y Rhaglen Gyfalaf i ddarparu'r isadeiledd digidol hwn a ddefnyddir i hwyluso darpariaeth systemau TG. Mae hefyd yn ariannu'r technolegau a dyfeisiau sydd eu hangen i gael gafael yn y systemau busnes hynny, p'un a fyddant yn cael eu lletya yn Sir y Fflint neu yn y Cwmwl.

Ailddatblygu Theatr Clwyd

Mae adeilad Theatr Clwyd wedi cyrraedd diwedd ei oes ac mae angen ei ddiweddarau i sicrhau ei fod yn ddiogel i'r cyhoedd a'r gweithwyr ei ddefnyddio. Defnyddiwyd cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gwblhau astudiaeth ddichonoldeb i'r posibilrwydd o ddatblygiad cyfalaf yn y dyfodol.

Dangosodd canlyniad yr astudiaeth ddichonoldeb bod y ddwy brif theatr yn gweithio'n dda iawn a'u bod y maint cywir ar gyfer cynulleidfaoedd, fodd bynnag, mae'r isadeiledd sy'n cefnogi'r adeilad angen ei adnewyddu a heb hyn nid yw'r Theatr yn gynaliadwy. Mae cwmpas y prosiect wedi cael ei leihau yn unol ag amcanion allweddol y cynllun busnes y cytunwyd arnynt a bydd yn darparu'r canlynol:-

- Gwagio ac ailwampio'r adeiladau presennol yn llwyr ac adeiladu estyniad cyntedd pren newydd a gweithdy gwaith coed.
- Bydd y gwaith ailwampio sydd wir ei angen yn Theatr Clwyd yn adfywio'r theatr ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Bydd yn darparu cartref newydd i'r gymuned leol ac yn atal yr adeilad hoff rhag gorfod cau.
- Bydd estyniad pren newydd ar du blaen yr adeilad yn cynnwys cyntedd newydd croesawgar ar dri llawr a bwyty newydd uchder dwbl, bar a chaffi, yn ogystal ag ystafell gyfarfod ac Ystafell Werdd. Gan mai gwydr fydd darnau helaeth ohono, bydd y cyntedd yn cynnig golygfeydd gwell o'r mynyddoedd o amgylch, a bydd yn cael ei gysgodi gan ganopi mawr pren ar ochr y de.
- Bydd dwy ystafell ymarfer newydd, yn cynnwys ystafell uchder llawn a all gymryd ymarferion ar gyfer llwyfan Theatr Anthony Hopkins, ailwampio Ystafell Clwyd a chodi'r llawr i gyd i un lefel, a chreu cyfres o ystafelloedd hyblyg i grwpiau cymunedol ar gyfer ymgysylltu'n greadigol, chwarae plant ac lechyd a Lles. Bydd gardd synhwyraidd ac ardal chwarae ar ochr y dwyrain.
- Bydd pob awditoriwm yn cael eu gwella'n dechnegol, gyda mân welliannau i'r cynllun seddi ac ystafelloedd rheoli.
- Bydd yr ardaloedd cefn llwyfan yn cael eu hailwampio a'r cynllun mewnlol yn cael ei aildrefnu pan fo angen i fodloni gofynion adrannau gwahanol. Bydd estyniad gweithdy newydd yng nghefn y safle yn darparu cyfleuster nad yw ar y safle ar hyn o bryd, gan ganiatáu i bob adran fod yn y theatr. Bydd oriel wyllo yn cael ei chreu fel bod y cyhoedd yn gallu gweld y cyfleusterau gefn llwyfan.
- Bydd hygyrchedd yn cael ei wella drwy'r adeilad cyfan, gyda mynediad lefel i bob ardal yn y tu blaen, 5 lifft newydd, toiledau hygyrch drwy'r adeilad cyfan a chawodydd yn yr ardaloedd cefn, a safleoedd newydd i gadeiriau olwyn ym mhob awditoriwm.
- Bydd amlen thermal yr adeilad yn cael ei gwella a defnyddir ffynonellau ynni adnewyddadwy yn cynnwys paneli solar a phympiau gwres yr awyr i wella'r defnydd o ynni. Bydd gwasanaethau ac offer theatr newydd drwy'r adeilad cyfan.

Bydd y Cyngor yn cael lefelau sylweddol o gyllid allanol ar gyfer cam adeiladu'r cynllun, dyfernir £22m gan LIC, £5m gan Gyngor Celfyddydau Cymru a £6m gan Theatr Clwyd. Heb y buddsoddiad sylweddol hwn, nid yw adeilad y Theatr yn gynaliadwy.

Canolfannau Hamdden

Mae Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy yn 50 oed ac yn nesáu at ddiwedd ei hoes ddefnyddiol yn economaidd. Dyma'r cyfleuster chwaraeon mwyaf yn y Sir, yn 15,000m² ac mae iddi bwysigrwydd strategol yn rhanbarthol ac yn lleol o ran cymryd rhan mewn chwaraeon ac iechyd a lles. Mae'n adeilad sy'n heneiddio mewn ôl troed rhy fawr a systemau ynni aneffeithlon. Nid yw'r adeilad yn gynaliadwy y tu hwnt i'r tymor canolig.

Mae'r Cyngor a'i bartner strategol Aura wedi cynnal astudiaeth ddichonoldeb ac achos busnes o opsiynau ar gyfer y ganolfan hamdden yn y dyfodol, a bydd yn adolygu'r effaith y gallai hyn ei gael ar y Rhaglen Gyfalaf ac unrhyw arbedion refeniw posibl yn y dyfodol.

Rhaglen SHARP

Mae'r Cyngor wedi alinio â Chynghrair Caffael Cymru ar gyfer camau nesaf ein rhaglen ddatblygu er mwyn sicrhau effaith fwy byth ein buddsoddiad mewn tai cymdeithasol ar hyfforddiant a swyddi yng Nghymru drwy'r cadwyni cyflenwi a chontractwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau ar raglen uchelgeisiol o ddatblygiadau tai cymdeithasol ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Y nod yw adeiladu 20,000 o gartrefi rhent cymdeithasol newydd ar hyd a lled Cymru heb ddim allyriadau carbon. Mae safon Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru diwygiedig wedi ei fabwysiadu ers mis Hydref 2021. Mae Grant Tai Cymdeithasol newydd wedi cael ei roi ar waith a chyfraddau grant amrywiol yn dibynnu ar hyfywedd y cynllun. Mae'r cyllid ar gyfer cartrefi newydd wedi cael ei gynyddu'n sylweddol. I ddangos hyn, ar gyfer Sir y Fflint, mae'r dyraniad wedi cynyddu o tua £4 miliwn yn 2020/21 i dros £10 miliwn yn 2021/22. Yn arwyddocaol i'r Cyngor, mae'r Grant Tai Cymdeithasol bellach ar gael i Awdurdodau Lleol yn ogystal â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Bydd y Cyngor yn datblygu rhaglen SHARP 2 i gynnwys a monitro cam nesaf ein rhaglen ddatblygu.

Digartrefedd - Canolbwynt Pobl Ifanc

Mae ymateb i anghenion pobl ifanc, yn enwedig y rhai a allai fod mewn perygl o fod yn ddigartref yn brif bwyslais i'r Cyngor. Mae angen ystyried nid yn unig anghenion llety, ond hefyd cefnogaeth i helpu pobl ifanc â'r sgiliau bywyd allweddol sydd eu hangen i fyw'n annibynnol a lleihau'r perygl o ddigartrefedd. Wrth edrych ar yr arfer gorau yn y maes gwaith hwn, mae nifer o enghreifftiau o ymarfer positif sy'n ceisio darparu llety, a hefyd cydlynu cefnogaeth a darparu gwasanaeth.

Dros y deuddeg mis nesaf, bydd y Gwasanaeth Tai ac Atal yn ystyried cyfleoedd i ddatblygu Canolbwynt Pobl Ifanc fydd yn ceisio darparu nifer o unedau llety hunangynhwysol â chefnogaeth ar y safle. Gallai hyn ymestyn i gynnwys darparu cyngor a chymorth am dai a digartrefedd a chynnig cyfleusterau lleol ar gyfer cydleoeli gwasanaethau mewn "canolbwynt tai". Bydd astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei hystyried i lywio'r dull hwn a allai ddarparu ardal swyddfa a chymunedol i sicrhau dull ar y cyd mewn model tîm amlddisgyblaethol.

Yn amodol ar ganlyniad gwaith ar ddichonoldeb, efallai bydd angen cyllid cyfalaf i ddarparu'r rhaglen hon. Bydd ffrydiau ariannu allanol hefyd yn cael eu hystyried er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddatblygu'r Canolbwynt Pobl Ifanc.

Digartrefedd - Canolfan

Tuag at ddiwedd 2019, cynhaliodd y Cyngor waith i ddatblygu darpariaeth Gwelyau Brys i bobl sy'n ddigartref ac a allai wynebu'r posibilrwydd o gysgu ar y stryd fel arall. Cwblhawyd gwaith sylweddol yng Nghanolfan Adnoddau Glanrafon yn Queensferry i drawsnewid yr adeilad i Loches Nos yn cynnig hyd at 12 Gwely Brys. Fel perchennog yr adeilad, cwblhaodd y Cyngor waith ailwampio ac yna gweithiodd mewn partneriaeth â The Wallich i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen i weithredu'r Lloches Nos yn ddiogel.

Gwelwyd Canolfan Glanrafon bob amser fel ateb tymor canolig i'r rhai sy'n ddigartref gyda'r bwriad o ddatblygu dulliau eraill yn y dyfodol gydag ymrwymiad i ddarparu ystod mwy eang o gefnogaeth.

Yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff yn Ystâd Ddiwydiannol Standard, Bwcle

Dyma ble mae'r holl ddeunydd ailgylchu o ymyl y ffordd o bob tŷ yn Sir y Fflint yn mynd ac mae bellach yn gweithio i'w uchafswm capasiti. Nid oes lle nac offer i allu cymryd mwy o ddeunydd nac unrhyw ffrydiau ailgylchu ychwanegol sydd ei angen ar gyfer prosesu. Mae'r Orsaf hefyd yn gweithredu ar ddau safle yn yr un lleoliad ac ar ddwy ochr ffordd fynediad gyhoeddus i'r ystâd ddiwydiannol, sy'n gallu achosi problemau logistaidd â cherbydau casglu, peiriannau a cherbydau cludo. Ar adegau prysur o'r flwyddyn, mae'r safle eisoes yn cael trafferth ymdopi o ran lle i brosesu, gollwng a storio deunyddiau. Heb ddatblygu'r cyfleuster ymhellach, mae perygl y bydd y cynnydd yn nifer y deunyddiau sy'n cael eu casglu yn dechrau peryglu ansawdd y cynnyrch sy'n cael ei ailgylchu. O'r herwydd, mae'r cyfleuster wedi cyrraedd croesffordd gritigol ac mae angen buddsoddiad pellach mewn isadeiledd i sicrhau hyfywedd parhaus y safle ac i wneud lle i dwf yn y gallu i brosesu yn y dyfodol.

9. Yr Heriau sy'n ein Hwytnebu wrth Gyflawni

Newid yn yr Hinsawdd - Lleihau, Dal a Storio Carbon

Mae mandad Llywodraeth Cymru am sector cyhoeddus di-garbon yn cynnwys datgarboneiddio adeiladau. Mae gofyniad gorfodol newydd i ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd, estyniadau a gwaith ailwampio gael eu hadeiladu'n ddi-garbon, ynghyd â'r disgwyliad bod estyniadau a gwaith ailwampio asedau hefyd yn cael sgôr amgylcheddol ac ynni da. Fodd bynnag, nid oes arweiniad wedi'i osod am safon benodol i adeiladau presennol hyd yma, felly, yn y cyfamser, bydd y Cyngor yn edrych ar arfer gorau mewn mannau eraill yn y sector i benderfynu ar y dull mwyaf effeithiol o ddatgarboneiddio'r asedau hyn. Gall gweithredu methodoleg/technolegau carbon isel, mewn adeiladau newydd ac mewn rhai sy'n cael eu hailwampio, achosi cynnydd sylweddol mewn costau. Bydd angen dadansoddi'r cynnydd hwn yn erbyn y budd yn y tymor hirach o ran arbedion ariannol ac enillion yn ymwneud â charbon.

Yn ôl mandad Llywodraeth Cymru mae gofyn i ni hefyd ystyried ein hasedau tir ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy mwy a chynlluniau plannu ar gyfer dal a storio carbon. Gall y gofyniad wrthdaro â blaenoriaethau eraill ynglŷn â rheoli tir a gwaredu asedau er budd ariannol, felly mae'n rhaid mabwysiadu proses benderfynu glir fel bod y dewisiadau mwyaf priodol yn cael eu gwneud ar gyfer asedau tir presennol a'r rhai rydym yn eu caffael.

Y Farchnad Adeiladu

Bu cynnydd sylweddol ym mhrisiau deunyddiau ers mis Mai 2020. Gwelwyd cynnydd mewn prisiau yn 2021 i ddechrau oherwydd cyfuniad o ffactorau, yn cynnwys:

- Gwelwyd cynnydd mewn prisiau nwyddau wrth i ddiwydiant o amgylch y byd ailddechrau yn dilyn cyfnodau clo yn ystod y pandemig
- Gwelodd economïau mawr gynnydd yn y galw wrth iddynt geisio adfer eu heconomïau e.e. coed (UDA), dur (Tsieina), a gyfrannodd at brinder a chwyddiant mewn prisiau
- Gwelwyd cynnydd aruthrol yn y galw am ddeunyddiau DIY a phrosiectau garddio yn y mwyafrif o wledydd y G7
- Achosodd COVID-19 gyfyngiadau a tharfu ar weithrediadau wrth i weithwyr orfod hunan-ynysu
- Mae prinder mewn cynwysyddion cludo, a arweiniodd at gynnydd mewn costau cludo, a phrinder eang o yrwyr HGV wedi cynyddu costau danfon ac wedi ymestyn amseroedd danfon
- Wrth i ni symud at ynni adnewyddadwy a cherbydau trydan, mae mwy o alw am ddeunyddiau fel copr ac alwminiwm
- Prinder Llafur - Effaith Brexit
- Rhyfel Wcráin

Yn ogystal â chynnydd mewn prisiau, mae problemau wedi bod hefyd ag argaeledd deunyddiau a chynnyrch ac amseroedd aros hirach, sydd hefyd yn ychwanegu at y pwysau parhaus ar brosiectau adeiladu.

Y Bil Amaethyddiaeth

Yn ddiweddar, mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori ar Ddeddf Amaethyddiaeth newydd arfaethedig. Ymhlith y cynigion mae atal awdurdodau lleol rhag gwaredu unrhyw ffermydd neu dyddynnod y mae'n berchen arnynt. Yn unol â'n Polisi Gwaredu Ffermydd, rydym wedi gwerthu 13 fferm ac wedi cael £7m+ yn y 5 mlynedd diwethaf. Pe baem yn cael ein hatal rhag gwerthu dim mwy, byddai hyn hefyd yn cael effaith ar y cyllid sydd ar gael yn y rhaglen gyfalaf.

Safonau Effeithlonrwydd Ynni Modern

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno deddfwriaeth sy'n atal eiddo masnachol rhag cael ei osod neu ei ail-osod i'r un tenant os yw ei sgôr EPC yn is nag E. Bydd hyn yn cael ei ymestyn o 1 Ebrill 2023 i gynnwys pob eiddo sy'n cael ei osod, hyd yn oed os nad yw'r tenant wedi newid, a chynigir bod yr isafswm gofynion yn codi i radd B erbyn 2030. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cael effaith ar yr incwm rydym yn ei gael, gall ddylanwadu ar ein strategaeth gwaredu ac efallai y bydd gofyn buddsoddi fel bod yr eiddo'n cyd-fynd â'r safonau.

Cyllid

Mae'r Cyngor yn cael adnoddau cyfalaf cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru i gefnogi blaenoriaethau, anghenion a rhwymedigaethau'r Cyngor; fodd bynnag, mae ganddo rym i ariannu cynlluniau cyfalaf drwy fenthycyca, ond rhywbeth dros dro yw hyn ac yn y pen draw, mae costau ac ad-daliadau unrhyw fenthyciad yn dod o gyllideb referniw'r Cyngor. Mae cynlluniau sy'n cael eu hariannu drwy fenthycyca yn cael eu hystyried yn ofalus oherwydd yr effeithiau hirdymor ar gyllideb referniw'r Cyngor.

Effeithiau Economaidd

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o raglen y Cyngor wedi cael ei hariannu o dderbyniadau cyfalaf. Fodd bynnag, mae gallu'r Cyngor i gynhyrchu derbyniadau cyfalaf sylweddol yn fwy heriol, ac wedi dod i ben bron iawn. Er y bydd y Cyngor, ble bynnag y bydd hynny'n bosibl, yn ceisio dynodi asedau i'w gwerthu (fel bo'n briodol) i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf. Fodd bynnag, mae angen cydbwysu hyn yn erbyn yr angen am dir i'w ddefnyddio i ddal a storio carbon.